Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# ERBYN
# LLYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Ymestyn Cyfnod Trosiannol) ac Iechyd Planhigion (Amlder Gwiriadau) (Diwygio Amrywiol) 2024** |
| **DYDDIAD** | **8 Hydref 2024** |
| **GAN** | **Huw Irranca-Davies AS Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig** |

Bydd Aelodau'r Senedd yn dymuno bod yn ymwybodol fy mod wedi rhoi fy nghydsyniad i'r Gweinidog Gwladol arfer pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru.

Gofynnodd y Gweinidog Gwladol dros Fioddiogelwch, Iechyd a Lles Anifeiliaid, y Farwnes Sue Hayman, am fy nghydsyniad i wneud Offeryn Statudol o'r enw Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Ymestyn Cyfnod Trosiannol) ac Iechyd Planhigion (Amlder Gwiriadau) (Diwygio Amrywiol) 2024 ("Rheoliadau 2024") i fod yn gymwys mewn perthynas â'r Deyrnas Unedig.

Gwnaed yr Offeryn uchod gan y Gweinidog Gwladol, y Farwnes Hayman, wrth arfer y pwerau a roddwyd o dan erthygl 144(6) o Reoliad (UE) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor ('yr OCR'), a pharagraffau 2 a 3(2) o Atodiad 6 i'r Rheoliad.

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud yr offeryn hwn o ganlyniad i'r cytundeb rhwng y tair llywodraeth ym Mhrydain Fawr ar y Model Gweithredu Targed y Ffin i gyflwyno cyfundrefn iechydol a ffytoiechydol cydlynol a chyson ar gyfer nwyddau a fewnforiwyd i Brydain Fawr i amddiffyn bioddiogelwch a sicrhau bod safonau diogelwch bwyd yn cael eu cynnal.

Diben Rheoliadau 2024 yw ymestyn cyfnod gweithredu gwiriadau mewnforio ar nwyddau iechydol a ffytoiechydol (‘SPS’) penodol sy'n dod i Brydain Fawr o wledydd penodol, hyd at 1 Gorffennaf 2025. Bydd y Rheoliadau yn diogelu bioddiogelwch, yn sicrhau diogelwch bwyd ac yn cefnogi masnach, drwy gyflwyno ail garreg filltir Model Gweithredu Targed y Ffin y cytunwyd arni gan bob llywodraeth ym Mhrydain Fawr.

Mae'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi manylion tarddiad, diben ac effaith Rheoliadau 2024 ar gael yma:

The Official Controls (Extension of Transitional Periods) and Plant Health (Frequency of Checks) (Miscellaneous Amendments) Regulations 2024 (legislation.gov.uk)

Yn ogystal, mae'r offeryn hwn yn ymestyn hawddfraint sy'n oedi'r gofyniad am wiriadau mewnforio (sy'n berthnasol i weddill gwledydd y byd) mewn perthynas â phlanhigion, cynhyrchion planhigion, a gwrthrychau eraill (megis peiriannau a cherbydau a ddefnyddiwyd at ddibenion amaethyddol neu goedwigaeth) sy'n dod i Brydain Fawr o'r UE, Liechtenstein a'r Swistir trwy Borthladd Arfordir y Gorllewin (fel y'i rhestrir yn y diffiniad o 'borthladd perthnasol' ym mharagraff 2 o Atodiad 6 i Reoliad (UE) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor ('y Rheoliad Rheolaethau Swyddogol'), cyn 1 Gorffennaf 2025. Mae'r offeryn hefyd yn ychwanegu Porth Abertawe at y rhestr o Borthladdoedd Arfordir y Gorllewin (a gynhwysir yn y diffiniad uchod o 'borth perthnasol').

Yn olaf, mae'r offeryn yn ymestyn hawddfraint sy'n oedi'r gofyniad am wiriadau mewnforio (sy'n berthnasol i weddill gwledydd y byd) mewn perthynas â ffrwythau a llysiau penodol fel y nodir yn Atodlen 2A o Reoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020 a fewnforiwyd o'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir cyn 1 Gorffennaf 2025.

Gosodwyd Rheoliadau 2024 gerbron Senedd y DU ar 8 Hydref 2024 a byddant yn dod i rym ar 30 Hydref 2024.

Nid yw Rheoliadau 2024 yn lleihau nac yn tanseilio pwerau Gweinidogion Cymru mewn unrhyw ffordd, ac nid ydynt yn creu, diwygio nac yn dileu unrhyw swyddogaethau a roddir i Weinidogion Cymru.

Hoffwn sicrhau'r Senedd mai polisi Llywodraeth Cymru fel arfer yw deddfu dros Gymru mewn materion cymhwysedd datganoledig. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, mae manteision o gydweithio â Llywodraeth y DU lle mae rhesymeg glir dros wneud hynny. Ar yr achlysur hwn, rwyf wedi rhoi fy nghydsyniad i'r Rheoliadau hyn am resymau effeithlonrwydd a hwylustod o ran newid polisi yn y dyfodol a chydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol, cydlyniad ar draws y DU, a chysondeb.